


# PORTMEIRION 1926-2026

## DATHLIAD

Pleser gennym yw eich gwahodd i ymuno â ni i ddathlu canmlwyddiant Portmeirion. Agorwyd y Gwesty ar Ddydd Gwener y Groglith y 2il Ebrill 1926 gyda mintai ddethol o westeion gwadd yn bwrw'r Sul acw. Mae'n briodol, felly, inni nodi achlysur y canmlwyddiant, bron union 100 mlynedd i'r diwrnod (gan mai ar y 3ydd o Ebrill y syrth Dydd Gwener y Groglith 2026), ac mae'n briodol hefyd inni geisio ail-greu i'r oes sydd ohoni beth o'r glendid a fu.

Yn ei lyfr Portmeirion, the place and its meaning dywed Clough Williams-Ellis, "Dros y Pasg, 1926, a hynny wedi llai na blwyddyn o waith paratoi, yr agorwyd yr hen dŷ gwreiddiol, heb fawr o uwchraddio, a chyda chryn betrusrwydd, a hynny fel gwesty anhrwyddedig…" Nid aeth pob dim yn unol â'r cynllun, yn ôl pob golwg. "Yn wir, roedd popeth yn eithaf diraen, cyntefig a ffwrdd-a-hi; yr offer yn annigonol, y staff heb hyfforddiant, y rheolwyr yn anaddas a'r bwyd yn warthus." Er gwaethaf y mân rwystrau hyn, "…roedd y gwahoddedigion yn eithaf clên am hyd yn oed y diffygion amlycaf – gan faddau'r cwbwl oherwydd harddwch anhygoel y lle ac hefyd, trwy drugaredd, y tywydd bendigedig a gafwyd." Gobeithio y cawn dywydd yr un mor drugarog i'r canmlwyddiant, gan obeithio y bydd rhai o'r brychau eraill wedi eu goresgyn erbyn hynny hefyd.

## A CELEBRATION

We are delighted to invite you to Portmeirion's centenary weekend at Easter, 2026. The Hotel Portmeirion opened on Good Friday, 2nd April 1926 with an illustrious group of invited guests staying for the weekend. It is thus fitting that we should mark this occasion almost exactly 100 years later, on Good Friday, 3rd April 2026 and we think appropriate to recapture some of the elegance of the past and some of the decadence of the roaring 1920s.

In his book Portmeirion, the place and its meaning Clough Williams-Ellis writes, "It was at Easter 1926, after less than a year's preparation, that the original old house, little altered, opened somewhat tentatively as an unlicensed hotel…" Not everything went to plan, apparently. "Indeed, everything was pretty rough, primitive and slapdash; the equipment inadequate, the staff untrained, the management unsuitable and the food terrible." In spite of these minor setbacks, "…the invited housewarming Easter party were appreciative and kind about even the most glaring shortcomings – forgiving all for the sake of the place's own caressing natural beauty and for the weather, most mercifully radiantly fine." We hope indeed that the weather will be kind to our centenary, and we trust that some of the other shortcomings will by then have been overcome.



PORTMEIRION 1926-2026

# RHAGLEN

## Gwener y Groglith
## 03/04/2026

Wedi ichi gyrraedd (ar ôl 13:00) dyma gychwyn ar daith yn ôl i'r gorffennol : te prynhawn Siampên i gyfeiliant alawon y delyn glasurol. Cewch ambell anrheg annisgwyl yn eich llofft i'ch diddanu, rhoddion canmlwyddiant i'w cadw.

Os cawn hindda, yna cawn de ar y lawnt, ar y llaw arall os cawn gwmpeini Morys y gwynt ac Ifan y glaw, byddwn yn gweini'r te pnawn yn lolfeydd y gwesty.

Gyda'r cyfnos a goleuadau'r pentref fel pigau'r sêr, gwahoddwn ein gwesteion i ymuno â ni yn y gwesty am dderbyniad coctels arddull y 1920au, ac i fod yn rhan o'n noson Dirgelwch Llofruddiaeth a gomisiynwyd gan Theatr Bara Caws (yn yr iaith Saesneg fydd y rhan fwyaf o'r cynhyrchiad y tro hwn). Bydd angen cydweithio i ddatrys y dirgelwch ac i'r perwyl hwn byddwn yn arddel byrddau cymunedol heno.

Cyn eich cinio nos bydd derbyniad Siampên a thamaid i aros pryd i gyfeiliant canu hudolus y gantores a'r berfformwraig Lola Lamour a fydd yn cyflwyno blaenffrwyth cerddoriaeth glasurol y 1920au. Yn dilyn hynny caiff ein gwesteion eu gwahodd i'r bwyty i fwynhau gwledd y canmlwyddiant fydd yn arwain at uchafbwynt syfrdanol dirgelwch y dauddegau Bara Caws.

# PROGRAMME

## Good Friday
## 03/04/2026

We embark on our journey back in time with a Champagne afternoon tea after check-in (from 13:00 or any time after) to the timeless melodies on the classical harp. In your room you will find a few surprises to enjoy, centenary mementos for you to keep.

Should the weather be clement, tea on the lawn will be served, however as early April can be fickle, the hotel lounges will be used if an al fresco service proves to be impractical.

As dusk falls and the village lights twinkle we invite our guests to join us for a 1920s style cocktail reception at the hotel, and to participate in a specially commissioned 1920s themed Murder Mystery evening written and performed by Theatr Bara Caws, a professional, locally based theatre company. As some teamwork and interaction will be integral to solveing the mystery, we will have communal tables laid for this evening.

Before dinner, Champagne and canapés are de rigueur and will be served while enjoying the captivating sounds of glamorous vocalist and entertainer Lola Lamour who will perform some of her classic 1920s music. Following this, our guests will be invited through into the Dining Room for a memorable dinner service and clandestine entertainment by Theatr Bara Caws.

# RHAGLEN

## Dydd Sadwrn
## 4ydd o Ebrill

Ar ôl brecwast gyda gwydraid o Siampaen neu Bucks Fizz gallwch ymlachio yn eich llofft neu fynd am dro o gwmpas y gerddi a'r pentref. wrth eich pwysau.

Gyda'r nos cofiwch gadw digon o amser ichi baratoi ar gyfer y cinio gala - ffrogiau 1920au i'r boneddigesau, tei ddu (neu wen) i'r boneddigion - Cinio Gala naw cwrs a grëwyd gan ein Prif Gogydd Gweithredol, sy'n ein tywys yn ôl mewn amser i flasu rhai o seigiau'r gorffennol, wedi eu hysbrydoli gan fwydlenni Gwesty Portmeirion dros y 100 mlynedd diwethaf. I gadw naws ac ysbryd y dathlu byddwn yn gweini'r Cinio Gala wrth fyrddau cymunedol wedi'u haddurno yn null ysblennydd yr oes o'r blaen.

Ar ôl swper, caiff y gwesteion eu gwahodd allan ar y teras ar gyfer Arddangosfa Tân Gwyllt fawreddog i oleuo'r nos a nodi 100 mlwyddiant swyddogol y pentref.

Yn dilyn y tân gwyllt cewch ddawnsio tan yr oriau mân i ganeuon 1920au ein Band Jas. Cerbydau am 1 y.b.

# PROGRAMME

## Saturday
## 4th of April

Enjoy a Bucks Fizz breakfast and then relax in your room or explore the village and gardens at your own pace. The village tends to be busy over the Easter weekend.

As evening approaches, dress for dinner - 1920s style dresses for the ladies, and black (or white) tie for gentlemen – in readiness for our Centenary 9-course Gala Dinner, created by our Executive Head Chef, taking us back in time to sample some of the flavours of the past, and inspired by classic dishes served at the Hotel Portmeirion over the past 100 years. To maintain the party spirit and convivial atmosphere, the Gala Dinner will be served at communal tables decorated in the style of a bygone era.

After dinner, guests will be invited onto the terrace for a Grand Fireworks Display to light up the night and officially mark Portmeirion's 100 years.



Following the fireworks, dance the night away to our 1920's Jazz Band until the early hours. Carriages at 1 a.m.

## Sul y Pasg,<br>5ed o Ebrill

Ar ôl y brecwast ffarwel gyda Siampaen a munud bach i gofio'r dathlu, mi ganwn yn iach â'r penwythnos bythgofiadwy hwn.

Cofiwch, os hoffech ymestyn eich arhosiad, gallwch drefnu hynny wrth ichi archebu'r pecyn.

Os hoffech gael cinio dydd Sul byddai'n werth archebu bwrdd ymlaen llaw gan fod cinio Sul y Pasg wastad yn brysur iawn.

Gobeithio cawn y pleser o'ch cwmpeini ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

## Pris y Pecyn (gyda TAW)<br>i ddau'n rhannu

| | |
|---|---|
| Dwbl yn y pentref | £1350 |
| Dwbl yn y gwesty | £1450 |
| Swît ddwbl y pentref | £1450 |
| Y pen ychwanegol | £450 |
| Swît y Paun | £1550 |
| Tŷ Gwylio | £1550 |

I gadw eich lle ar gyfer Dathlu'r Canmlwyddiant:

☎ 01766 770000
✉ aros@portmeirion.cymru
💻 www.portmeirion.cymru

## Easter Sunday<br>5th of April

A final farewell Bucks Fizz breakfast and a moment to reflect on an unforgettable weekend celebration before it is time to go.

Should you wish to stay for an extra night, this can be arranged when you make your reservation.

If you wish to stay for Sunday lunch we advise booking in advance as it always gets booked out for Easter Sunday.

We hope to have the pleasure of your company and look forward to welcoming you.

## Package Price (inc VAT)<br>for two guests, sharing

| | |
|---|---|
| Village double for two | £1350 |
| Hotel Double room | £1450 |
| Village Double Suite | £1450 |
| Per extra person (family Suite) | £450 |
| Peacock Suite | £1550 |
| Watch House | £1550 |

To book our Centenary Celebration weekend:

☎ 01766 770000
✉ stay@portmeirion.wales
💻 www.portmeirion.wales



# PORTMEIRION 1926-2026